



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Tudweiliog
Tudweiliog
Pwllheli
Gwynedd
LL53 8ND**

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2012

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Mae Ysgol Tudweiliog wedi ei lleoli ym mhentref Tudweiliog, sydd tua phedair milltir o Nefyn yng Ngwynedd. Yn ogystal â phlant y pentref, mae plant o bentref Llangwinnadl yn mynychu'r ysgol.

Mae 43 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol yn cynnwys saith o ddisgyblion rhan-amser oed meithrin. Daw 81% o ddisgyblion o gartrefi Cymraeg. Nid oes unrhyw ddisgybl o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae pump y cant o'r disgyblion â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn llawer is na chyfartaledd Cymru. Mae 10% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol sydd yn is na'r ffigur cenedlaethol. Nid oes neb ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 1996.

Y gyllideb ysgol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Tudweiliog yn 2011-2012 yw £4,163. Yr uchafswm o ran cyllideb ysgol fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £7,732 a'r lleiafswm yw £2,674. Mae Ysgol Tudweiliog yn safle 28 o'r 102 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- holl ddisgyblion yr ysgol yn datblygu'n ddysgwyr hyderus ac annibynnol ac yn cyflawni safonau da;
- medrau llafar y disgyblion yn y Gymraeg yn dda ac yn cael effaith glir ar safonau;
- yr ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau i'r disgyblion i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu;
- yr addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol, gyda defnydd effeithiol o gymorthyddion dosbarth; a bod
- yr ysgol yn gymuned hapus a gofalgar.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- gweledigaeth gadarn y pennaeth sy'n gosod strategaeth glir i'r ysgol;
- y defnydd effeithiol o ddata i dracio cynnydd disgyblion a chodi safonau; a'r
- cyswllt agos rhwng yr hunan arfarniad a chynllun datblygu'r ysgol, sy'n nodi blaenoriaethau clir ar gyfer gwelliant.

Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

- A1 wella safonau ysgrifennu Saesneg ar draws y cwricwlwm;
- A2 sicrhau cysondeb o ran marcio gwaith disgyblion yn effeithiol ac ymateb dilynol gan y disgyblion;
- A3 datblygu dinasyddiaeth fyd-eang ymhellach ar draws yr ysgol; a
- A4 datblygu rôl y llywodraethwyr i gyfrannu'n fwy effeithiol yn y broses hunanarfarnu a darparu mwy o her i'r ysgol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae disgyblion Ysgol Tudweiliog yn gwneud cynnydd da ac yn datblygu ar draws yr ysgol yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau llythrennedd Cymraeg. Mae safonau llafar yn gadarn, gyda disgyblion yn cyfathrebu'n gwbl naturiol mewn iaith lafar raenus sy'n adlewyrchu ieithwedd yr ardal leol. Defnyddia'r disgyblion y Gymraeg yn naturiol wrth sgwrsio â'i gilydd ac wrth drafod eu gwaith. Mae medrau darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn dda gyda llawer ohonynt yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o frawddegau ac atalnodi. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r mwyafrif ohonynt yn ysgrifennu'n annibynnol yn briodol i wahanol bwrpasau.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu darllen. Maent yn dangos hoffter at lyfrau ac yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus yn y Gymraeg. Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio uwch fedrau darllen yn hyderus i gywain gwybodaeth yn y ddwy iaith. Mae'r disgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol ar gyfer darllen yn gwneud cynnydd da. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd priodol yn eu gwaith ysgrifenedig yn y Gymraeg. Er hynny, nid yw'r disgyblion yn ail ddrafftio gwaith i wella eu hymdrechion cyntaf. Nid yw safonau'r ysgrifennu'r disgyblion wedi datblygu'n ddigonol yn y Saesneg. Mae lleiafrif o'r disgyblion yn defnyddio cystrawennau chwithig ac yn sillafu'n ffonetig.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn unol â'u targedau unigol.

Mae angen bod yn ofalus wrth ymateb i ddata perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 oherwydd bod niferoedd disgyblion yn fach. Mae canran disgyblion y Cyfnod Sylfaen sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 2), yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau'r teulu o ysgolion dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r canran sy'n cyrraedd lefel 3 neu uwch yn y Gymraeg ac mewn mathemateg yn arwyddocaol uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion dros gyfnod o dair allan o'r pedair blynedd ddiwethaf. Nid oes tueddiadau amlwg rhwng perfformiad bechgyn a merched sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn cyfuniad o'r Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth

Mae cyflawniadau disgyblion diwedd cyfnod allweddol 2 yn y dangosydd pynciau craidd (sef lefel 4 mewn cyfuniad o'r Gymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a chyfartaleddau Cymru mewn tair allan o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r patrwm ar gyfer y pynciau ar wahân yn anwastad dros gyfnod o bedair blynedd. Mae tueddiadau mewn cyflawniadau disgyblion ar lefel 5 ac uwch yn anwastad yn y Gymraeg, mathemateg a

gwyddoniaeth. Mae cyflawniad y disgyblion ar lefel 5 ac uwch yn y Saesneg yn sylweddol is na chyfartaleddau'r teulu a chyfartaleddau Cymru.

Yn y ddau gyfnod allweddol mae cyflawniad wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf dros y pedair blynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran y canran sydd â hawl i dderbyn cinio am ddim.

Lles: Da

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach. Mae pob un o ddisgyblion amser llawn yr ysgol yn cymryd rhan yn y clwb 'Dal i fynd' ddwywaith yr wythnos, sy'n cyfrannu at eu dealltwriaeth dda o bwysigrwydd corff a meddwl iach.

Mae rhan holl ddisgyblion yr ysgol yn mwynhau eu gweithgareddau dysgu ac yn dangos lefelau uchel o gymhelliant a brwdfrydedd. Mae holl ddisgyblion yr ysgol yn gweithio'n annibynnol ac yn cydweithio'n dda a'i gilydd. Mae safonau ymddygiad yn dda iawn, gyda'r disgyblion yn gwrtais ac yn dangos parch a gofal at oedolion ac at eu cyfoedion.

Mae presenoldeb yr ysgol yn dda.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r 'Grŵp gwyrdd' yn datblygu eu rôl yn effeithiol ac yn cael dylanwad cadarnhaol ar waith yr ysgol. Maent yn cyfrannu at benderfyniadau drwy drefnu gweithgareddau a chodi arian at elusennau.

Mae cyswllt agos rhwng yr ysgol a'r gymuned leol a thrwy ymweliadau a gweithgareddau, mae'r disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth dda o'u cymuned leol.

Mae medrau rhyngberthnasol cryf iawn gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn eu hyder wrth gydweithio a datrys problemau.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang a chytbwys o brofiadau dysgu sy'n ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r profiadau hynny'n ennyn diddordeb ac yn bodloni anghenion y disgyblion, cyflogwyr a'r gymuned yn llawn. Daw ymwelwyr i'r ysgol i rannu eu profiadau ac fe drefnir amrywiol weithgareddau ac ymweliadau â manau o ddiddordeb er mwyn atgyfnerthu'r dysgu.

Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu ac adeiladu ar eu medrau allweddol wedi'u cynllunio'n dda ar draws ystod y pynciau. Er hynny, nid yw'r disgyblion yn cael yr un cyfleoedd yn y Saesneg. Darperir cyfleoedd gwerthfawr yn y Gymraeg i'r disgyblion ddatblygu eu medrau cyfathrebu ac mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi'r disgyblion i drafod a lleisio barn yn hyderus

Mae gan y dimensiwn Cymreig le canolog yn rhaglen waith yr ysgol ac adlewyrchir natur Gymreig y gymuned yn effeithiol yn y gweithgareddau. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u diwylliant a'u hamgylchedd yn effeithiol.

Mae'r ysgol wedi datblygu gardd gynhyrchiol ac mae'r cynnyrch yn cael ei werthu yn y siop ffrwythau. Mae 'Panel Gwyrdd' sydd wedi'i sefydlu'n ddiweddar yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o gynaliadwyedd ac yn annog holl gymuned yr ysgol i ailgylchu ac arbed ynni. Mae rhai prosiectau rhyngwladol ar waith. Er hyn, nid yw dinasyddiaeth fyd eang wedi ei datblygu'n llawn trwy'r ysgol.

Addysgu: Da

Mae'r addysgu'n gyson dda ar draws yr ysgol. Mae perthynas dda iawn rhwng y staff a'r disgyblion, ac mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn creu ethos weithgar a chynhaliol. Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o'r cymorthyddion i gynnal grwpiau o ddisgyblion o fewn y dosbarthiadau.

Mae'r athrawon yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau addysgu effeithiol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Mae'r arweiniad a'r gweithgareddau pwrpasol a gynigir i'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen, yn datblygu eu medrau i fod yn ddysgwyr annibynnol. Mae'r addysgu'n rhoi ystyriaeth briodol i'r ystod oedran yng nghyfnod allweddol 2, ond nid yw'r tasgau bob amser yn ddigon heriol.

Mae gan yr ysgol drefn asesu glir a gwneir defnydd priodol o broffiliau dalgylchol i safoni'r asesiadau. Mae'r athrawon yn cynnwys y disgyblion yn dda wrth osod targedau realistig ar gyfer gwelliant a datblygiad. Defnyddir rhai strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol er nad ydynt wedi eu datblygu'n llawn.

Caiff gwaith y disgyblion ei farcio'n gyson. Er hynny, mae peth anghysondeb yn ansawdd y marcio. Lle mae'r marcio yn dda, rhoddir sylwadau adeiladol ar gyfer datblygiad pellach. Yn y lleiafrif o achosion lle nad yw'r marcio cystal, prin yw'r sylwadau ac nid yw'r cyfarwyddyd bob amser yn ddigon clir i'r disgyblion ar sut i wella'u gwaith.

Mae'r adroddiadau blynyddol i'r rhieni yn rhoi darlun clir am gyflawniad a datblygiad y disgyblion.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chroesawus, lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel. Mae'r profiadau dysgu ynghyd â chyfnodau cyd-addoli dyddiol yn hyrwyddo datblygiad personol, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol iawn.

Mae Siop Ffrwythau'r ysgol, sy'n cael ei rhedeg gan y disgyblion hŷn, yn hyrwyddo pwysigrwydd bwyta'n iach ymhlith yr holl ddisgyblion yn effeithiol. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgaredd cadw'n heini trwy gynllun Dal i Fynd yn gyson. Mae timau o'r ysgol yn cystadlu mewn gornestau chwaraeon yn rheolaidd.

Cydweithia'r ysgol yn effeithiol gydag ystod o wasanaethau megis yr heddlu a gwasanaethau'r awdurdod lleol. Mae rhain yn darparu gwybodaeth, arweiniad a chymorth priodol i'r disgyblion a'r staff.

Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol yn dda. Caiff anghenion disgyblion eu hadnabod yn gynnar, ac mae cynlluniau addysg unigol priodol yn eu lle. Gwneir defnydd effeithiol iawn o'r cynorthwywyr dosbarth i roi cymorth penodol a chyson i'r disgyblion yn ôl eu hanghenion unigol.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, gynnes a chynhwysol. Caiff yr holl ddisgyblion hawl gyfartal i'r holl ddarpariaeth addysgol a chymdeithasol. Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydaddoldeb hiliol yng ngwaith yr ysgol.

Mae gan yr ysgol ystod o adnoddau priodol sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol.

Mae'r ysgol yn darparu digon o le a chyfleusterau pwrpasol ac yn gwneud defnydd llawn ohonynt. Caiff yr adeilad ei gadw'n ddestlus. Mae cyfleusterau chwarae allanol eang a braf yn cynnig profiadau amrywiol i'r disgyblion. Mae'r arddangosfeydd deniadol o gwmpas yr ysgol yn creu amgylchedd dysgu lliwgar a symbylol.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a strategaeth effeithiol i gyflawni nodau ac amcanion yr ysgol. Mae'n arwain ac yn cydweithio gyda'r staff i ddatblygu cymuned weithgar a gofalgwr sy'n cael dylanwad cadarnhaol ar gyflawniad disgyblion. Mae arweinyddiaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol o fewn yr ysgol. Mae'r staff yn gymuned gynhaliol glos, ac yn cyfarfod yn aml i drafod, cydweithio a chynllunio'n fwiadus ar gyfer datblygu'r ysgol. Defnyddir data ar berfformiad disgyblion i fonitro perfformiad yr ysgol yn effeithiol.

Mae amrediad eang o bolisiau perthnasol yn bodoli ac maent yn cael eu hadolygu yn ôl y gofyn er mwyn ymateb i argymhellion statudol, a gofynion y disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei ddyletswyddau yn gydwysol. Mae'r llywodraethwyr yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae lleiafrif ohonynt wedi ymweld â dosbarthiadau yn ddiweddar er mwyn datblygu ymwybyddiaeth well o berfformiad yr ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn derbyn a thrafod adroddiadau monitro'r awdurdod, ynghyd â data ar berfformiad yr ysgol. Er hyn, nid ydynt wedi datblygu eu rôl fel cyfeillion beirniadol yn ddigonol i gynnig her a symud yr ysgol ymlaen.

Llwydda'r ysgol i roi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol drwy hyrwyddo dwyieithrwydd, sefydlu'r Cyfnod Sylfaen a datblygu cymuned ddysgu broffesiynol

lwyddiannus. Mae'r staff hefyd yn cydweithio'n dda gydag ysgolion y dalgyrch wrth asesu a safoni gwaith disgyblion. Mae hyn yn dylanwadu'n dda ar safonau.

Gwella ansawdd: Da

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddogfen gynhwysfawr sy'n gwneud defnydd priodol o ddatblygiadau data. Mae ystyriaeth briodol hefyd yn cael ei rhoi i safbwyntiau staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr yn y broses hunanarfarnu. Mae'r broses hon yn rhan bwysig o waith yr ysgol wrth lunio blaenoriaethau er mwyn gwelliant.

Mae gan yr ysgol system fonitro effeithiol. Mae'r pennaeth a'r athrawon yn monitro ansawdd y dysgu a'r addysgu a safonau'r disgyblion yn briodol. Gwneir defnydd o arsylwadau i flaenoriaethu meysydd i'w datblygu. Caiff rhain eu cysylltu â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol er mwyn gosod cyfeiriad clir i'r ysgol.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen glir a chynhwysfawr ac wedi ei seilio ar arfarniad yr ysgol. Rhennir y prif flaenoriaethau gyda'r rhieni.

Mae yr ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth ymateb i argymhellion yr arolygiad diwethaf.

Mae'r athrawon a chymorthyddion yn perthyn i rwydwaith o arfer broffesiynol gyda thair ysgol arall i wella safonau mathemateg yn seiliedig ar ddatblygiad o berfformiad disgyblion yn y pwnc. Er bod hwn yn weddol ddiweddar, mae'r rhwydwaith eisoes wedi llwyddo i gynhyrchu adnoddau mathemategol defnyddiol. Mae athrawon Cyfnod Sylfaen y dalgyrch yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu arferion da ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda rhieni a gofawyr. Maent yn cefnogi'r ysgol ac yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion drwy weithgareddau megis yr Urdd, gwaith cyfrifiadurol, Clwb Garddio a Chlwb Drama.

Mae'r rhieni'n cyfrannu'n effeithiol at waith yr ysgol drwy weithgareddau'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.

Mae cysylltiadau agos rhwng yr ysgol a'r gymuned leol a gwneir ymdrechion da i ddatblygu'r bartneriaeth â byd busnes yn yr ardal wledig hon. Mae dealltwriaeth y disgyblion o fyd gwaith yn datblygu trwy ymweliadau gan gyflogwyr lleol.

Mae partneriaethau da rhwng y staff ac ysgolion y dalgyrch. Sefydlwyd trefniadau trosglwyddo llwyddiannus gyda'r ysgol uwchradd, ac mae cysylltiadau da rhwng yr ysgol ac ysgolion cynradd y dalgyrch yn y broses o gymedroli a chyd-safoni gwaith.

Rheoli adnoddau: Da

Mae gan yr ysgol gyflenwad priodol o staff i addysgu'r cwricwlwm ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol. Defnyddir eu diddordebau au harbenigedd i gyfoethogi

profiadau'r disgyblion yn dda. Mae'r cymhorthyddion yn gryfder yn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad y disgyblion.

Mae'r ysgol yn bodloni gofynion statudol y Cytundeb Cenedlaethol ar 'Godi Safonau a Mynd i'r Afael â Baich Gwaith' ac mae'r trefniadau ar gyfer sesiynau cynllunio a pharatoi yr athrawon yn cael dylanwad da ar y ddarpariaeth. Gweithredir sistem rheoli perfformiad yn rheolaidd. Defnyddir y broses yn dda i osod targedau personol ac wrth ymateb i ofynion y cynllun datblygu ysgol.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn briodol ac yn dosrannu cyllid yn effeithiol. Maent yn rheoli'r adnoddau yn unol â blaenoriaethau'r cynllun datblygu'r ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Yng nghyfnod allweddol 1, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 2, mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae cyfrannau'r disgyblion sy'n cyrraedd lefel 2 mewn gwyddoniaeth yn anwastad dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae'r disgyblion sy'n cyrraedd lefel 3 yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gyson uwch na chyfartaleddau'r teulu a Cymru dros y pedair blynedd diwethaf.

O gymharu cyflawniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 gydag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim, mae cyflawniad y disgyblion wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf yn y Gymraeg ac mewn gwyddoniaeth. Mae cyflawniad yr ysgol wedi bod yn y 25% uchaf mewn mathemateg dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae cyflawniadau disgyblion diwedd cyfnod allweddol 2 yn y dangosydd pynciau craidd (sef lefel 4 mewn cyfuniad o'r Gymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a chyfartaleddau Cymru mewn tair allan o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r patrwm ar gyfer y pynciau ar wahân yn anwastad dros gyfnod o bedair blynedd. Mae tueddiadau mewn cyflawniadau disgyblion ar lefel 5 ac uwch yn anwastad yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae cyflawniad y disgyblion ar lefel 5 yn y Saesneg yn sylweddol is na chyfartaleddau'r teulu a chyfartaleddau Cymru.

Wrth gymharu cyflawniad yr ysgol ar ddiwedd y cyfnod allweddol 2, gydag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim, mae cyflawniad y disgyblion wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf yn y Gymraeg, Saesneg a mathemateg. Mae cyflawniad yr ysgol wedi bod yn y 25% uchaf mewn gwyddoniaeth dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Nid yw'n bosibl cymharu cyflawniadau disgyblion sydd a'r hawl i ginio rhad ac am ddim gan fod y niferoedd mor fach.

Nid oes tueddiadau amlwg rhwng perfformiad bechgyn a merched.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymateb i holiaduron y disgyblion:

Mae'r 16 ymateb a gafwyd gan y disgyblion yn gadarnhaol iawn.

Mae pob un o'r farn:

- bod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw fwlio;
- eu bod yn gwybod pwy i siarad ag ef/hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio;
- bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach;
- bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol iddyn nhw gael ymarfer corff;
- bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd;
- eu bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd;
- bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron iddyn nhw wneud eu gwaith,
- bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith; a
- bod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Mae bron y cyfan o'r farn:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol; a
- bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith yn yr ysgol.

Ymateb i holiaduron y rhieni:

O'r 12 ymateb a gafwyd oddi wrth rieni, mae pob un o'r farn:

- eu bod yn fodlon gyda'r ysgol yn gyffredinol;
- bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol;
- bod eu plentyn wedi derbyn cymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuon nhw yn yr ysgol;
- bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol;
- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- bod yr addysgu'n dda;
- bod staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed a gwneud ei orau;
- bod gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae'r plant yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- bod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;
- y caiff eu plentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol;
- eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion;

- bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb;
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau ar gael; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o'r farn:

- bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol;
- eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn; a'u
- bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.

Mae llawer o'r farn:

- bod eu plentyn wedi ei baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Anwen Griffith	Arolygydd Cofnodol
Gareth Wyn Jones	Arolygydd Tîm
Dylan Jones	Arolygydd Lleyg
Llinos Mary Jones	Arolygydd Cymheiriaid
Einir Davies (Pennaeth)	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	CSD	CSB1	CSB2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Cwricwlwm Cenedlaethol

Lefelau disgwylidig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.